Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
Gwasanaethau Caffael
Hysbysiad Preifatrwydd

1. Cyflwyniad

Mae GIG Cymru yn gartref i saith sefydliad iechyd, sy'n cynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn darparu llawer o wasanaethau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys Caffael.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn gan dîm Llywodraethu Gwybodaeth PCGC i gynorthwyo a hwyluso'r broses gaffael yn GIG Cymru.

Os oes unrhyw ymholiadau gennych am yr wybodaeth hon, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost sydd i'w weld ar waelod yr Hysbysiad hwn.

2. Eich hawliau

Mae'r Hysbysiad hwn yn amlinellu'ch hawliau dan gyfraith o'r enw Deddf Diogelu Data 2018. Mae'n pwysleisio bod angen i PCGC sicrhau ein bod yn egluro sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yn ystod y broses gaffael.

Bydd yr wybodaeth a roddwn ichi am sut y byddwn yn defnyddio'ch data:

- yn gryno, yn hawdd ei darllen ac yn hygyrch
- wedi'i hysgrifennu'n glir ac yn syml ac
- yn rhad ac am ddim.

3. Pa gyfreithiau ydyn ni'n eu dilyn?

Y gyfraith sy'n pennu sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Dyma restr o'r cyfreithiau rydym yn eu dilyn sy'n caniatáu inni ddefnyddio'ch gwybodaeth:

- Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Deddf Diogelu Data 2018
- Y Ddeddf Hawliau Dynol
- Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Y Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron
- Deddf y Comisiwn Archwilio
- Y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwiliol
- Cyfarwyddeb Contract Cyhoeddus yr UE 2014
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Deddf GIG 2016
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 / Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2011

Mae cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Caffael PCGC yn gweinyddu'r prosesau sy'n cynnwys Caffael ar gyfer GIG Cymru, a hi yw deiliad a defnyddiwr eich gwybodaeth.

4. Pa fath o wybodaeth bersonol ydyn ni'n ei defnyddio at ddibenion caffael?

Defnyddir yr wybodaeth a restrir isod, yr ydych yn ei darparu fel rhan o'ch Gwahoddiad i Dendr (ITT) neu Gais am Ddyfynbris (RFQ) at ddibenion Caffael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Manylion cyswllt cynigwyr, eu staff neu isgontractwyr, er enghraifft eu henwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Copi o gofrestriad y cwmni;
- Manylion cyfrif banc;
- Trosiant ariannol/cyfrifon;
- Tystiolaeth o Yswiriant a gynhelir;
- Manylion unrhyw gamymddwyn proffesiynol;
- Data TUPE (fel sy'n berthnasol);
- Gweithgarwch Troseddol/Cofnod Troseddol gan gynnwys Gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- Cofnodion Iechyd a Diogelwch;
- Tystiolaeth o dalu trethi cymdeithasol;
- Data cyfrifiad cleifion dienw,
- Unigolion penodol a all ddarparu gwasanaethau penodol o dan y contract, ac
- Unrhyw wybodaeth arall a gesglir o ddogfennau eraill sy'n ofynnol yn y ddogfennaeth ITT neu RFQ

Bydd Gwasanaethau Caffael PCGC ddim ond yn delio gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i gaffael neu gyflawni'r contract.

5. Lle cawn eich Gwybodaeth

- Dogfennau tendr/dyfynbris;
- CVs staff a gynigir ar gyfer darparu'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith;
- Ymatebion i gwestiynau fel y'u nodwyd mewn Holiadur Dewis Safonol neu Gyn-Gymhwyster yr ITT neu'r RFQ;
- Copïau o dystysgrifau o natur wahanol; a
- Dogfennaeth arall sy'n ofynnol yn y ddogfennaeth ITT neu RFQ

6. Pam y caiff gwybodaeth ei phrosesu?

Pwrpas y prosesu yw defnyddio'r wybodaeth amrywiol er mwyn gwerthuso'r cynigion a dderbynnir mewn ymateb i alwad am ddyfynbris/ tendr gan gyfeirio at feini prawf gwahardd a dyfarnu fel y'u nodir yn y ddogfennaeth ITT neu RFQ. Bydd prosesu'r wybodaeth yn caniatáu i wasanaethau Caffael ddyfarnu'r contract i'r ymgeisydd gorau o ran y cyflwyniad mwyaf manteisiol yn economaidd yn seiliedig ar y meini prawf dyfarnu a hysbysebir.

Pwrpas cyhoeddi gwahoddiad i dendr/dyfynbris yw agor y gystadleuaeth, cynyddu'r dewis o ddarpar-gyflenwyr, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniad gwerth am arian, ac ar yr un pryd ddatblygu cyfleoedd marchnad i gwmnïau.

7. Rhannu eich gwybodaeth

Mae rhesymau pam rydym yn rhannu gwybodaeth at ddibenion caffael.

Mae hyn fel arfer ar gyfer y broses gwerthuso caffael a rheoli contractau sy'n cynnwys:

- Llunio rhestr fer cynigwyr;
- Gwerthuso tendrau neu ddyfynbrisiau;
- Penodi cynigwyr llwyddiannus i'r contract;
- Gweithgareddau rheoli contractau.

O dan y gyfraith, dim ond gyda'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am y gweithgareddau uchod y rhennir eich gwybodaeth. Mae'n bwysig nodi bod unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth amdanoch chi o dan eu dyletswydd gyfreithiol eu hunain i'w chadw'n gyfrinachol ac i warchod diogelwch yr wybodaeth.

8. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â'r canlynol:

- Gweithgorau wedi'u sefydlu i gefnogi'r broses gaffael gan gynnwys Staff y GIG, Staff Caffael, Cyllid, Adnoddau Dynol a gwasanaethau Cyfreithiol;
- Llywodraeth Cymru:
- Ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan Wasanaethau Caffael PCGC sy'n cynorthwyo gyda'r Broses Gaffael;
- Cyrff cyhoeddus eraill ac aelodau o'u staff sy'n cymryd rhan yn y Panel Gwerthuso lle mae Gwasanaethau Caffael PCGC yn cydweithredu ar weithgareddau Caffael ar y Cyd;
- Tendrwyr eraill sydd wedi bod yn aflwyddiannus fel rhan o ôl-drafodaeth; byddai hyn yn cynnwys achosion lle mae Gwasanaethau Caffael PCGC yn bwriadu dyfarnu contract i chi drwy rannu eich gwybodaeth bersonol gan gynnwys manteision eich tendr/dyfynbris a manteision eich cyflwyniad ansawdd/pris. Byddai hyn cyn dyfarniad ffurfiol yn unol â rhwymedigaeth Gwasanaethau Caffael PCGC i hysbysu canlyniad y weithdrefn gaffael a gwariant fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015;
- Cyrff sy'n gyfrifol am dasg monitro neu arolygu wrth arfer cyfraith yr UE/DU (e.e. archwiliadau mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru);
- Aelodau'r cyhoedd, yn unol â rhwymedigaeth Gwasanaethau Caffael PCGC i gyhoeddi gwybodaeth am ganlyniad y weithdrefn gaffael a gwariant fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.
- Bydd y cyhoeddiadau hyn yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, ar wefan GwerthwchiGymru https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a Gwefan Gwasanaethau

Caffael PCGC www. https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-caffael/

Dim ond yr wybodaeth angenrheidiol y byddwn yn gofyn amdani, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Ni fyddwn byth yn gwerthu'ch gwybodaeth ac ni fyddwn yn ei rhannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol.

9. Diogelwch eich Gwybodaeth

Mae PCGC yn cymryd y cyfrifoldeb sydd ganddi i warchod eich gwybodaeth bersonol yn ddifrifol iawn. Ni waeth a yw'r wybodaeth honno ar ffurf electronig neu ar bapur.

Rydym hefyd yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a'i chyfrinachedd er mwyn sicrhau:

- Bod eich gwybodaeth wedi ei diogelu, ac er mwyn
- Rhoi gwybod ichi sut y caiff ei defnyddio.

Mae disgwyl i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn rheolaidd. Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn gallu diogelu'r wybodaeth sydd wedi ei rhoi i PCGC. Mae'r hyfforddiant hwn yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn GIG Cymru yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â thrin eich gwybodaeth, ni waeth pa adran mae'n gweithio ynddi.

10. Beth yw'ch hawliau?

Mae gan PCGC broses lle byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'ch gwybodaeth, os bydd ei hangen arnoch. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o ba wybodaeth sydd gennym a phaham.

Mae gennych yr hawl:

- I gael manylion am sut y defnyddir eich gwybodaeth (os na chaiff ei egluro uchod); ac
- I dderbyn copïau o'ch gwybodaeth.
- Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle na fyddem yn gallu rhoi eich gwybodaeth i chi, er enghraifft os yw'ch gwybodaeth hefyd yn cynnwys gwybodaeth rhywun arall ac nad yw wedi rhoi caniatâd i ni rannu'r wybodaeth.

Os ydych chi am wybod mwy am yr hawliau sydd gennych i weld eich data, cysylltwch â Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC. Ymdrinnir â phob cais am wybodaeth fesul achos.

Mae PCGC yn ceisio ymateb i bob cais i gael mynediad at wybodaeth cyn gynted â phosibl. Mae'n rhaid i'r sefydliad ymateb i'ch cais cyn pen mis ar ôl ei dderbyn,

ond gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r cais yn gymhleth ac yn fawr. Byddwn yn eich hysbysu pe bai angen rhagor o amser arnom i ymateb i'ch cais.

11. Oes rhaid imi dalu ffi?

Fel rheol, darperir y wybodaeth yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, gallem godi ffi fach. Dyma lle mae'r cais yn fawr neu'n cael ei ailadrodd a bydd yn seiliedig ar gost ei ddarparu. Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am y ffioedd a godir am wybodaeth, cysylltwch â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth.

12. Sut gaiff yr wybodaeth ei darparu?

Caiff yr wybodaeth ei darparu ar ffurf sy'n hawdd ei defnyddio ar system arall os yw'n electronig (e.e. ffeil Microsoft Word neu Excel). Fel arall, caiff ei darparu ar bapur. Bydd pob cais am wybodaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n addas i'ch anghenion, felly os bydd ei hangen arnoch mewn fformat penodol, h.y. print bras, Braille, neu mewn iaith arall, byddwn yn ymdrechu i ddiwallu'ch anghenion.

13. Caniatâd (Cydsyniad)

Er mwyn sicrhau bod y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon, mae'n bosibl y bydd PCGC yn gofyn am eich caniatâd i'w defnyddio. Nid oes rhaid gwneud hynny os yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfreithlon o dan ddeddfwriaeth bresennol, fel caffael.

Mae'n rhaid eich bod wedi rhoi caniatâd (cydsyniad) o'ch gwirfodd ac ni ddylech fod wedi bod dan bwysau i wneud hynny. Mae'n rhaid bod hyn wedi ei wneud mewn modd eglur, a dylech chi fod yn ymwybodol o sut y caiff eich gwybodaeth ei thrin.

14. Rhoi gwybod ichi a chael eich cydsyniad

Os byddwn yn gofyn am eich caniatâd, cewch chi wybodaeth am hyn ar ffurf yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Bydd hyn yn egluro beth y mae gofyn ichi roi caniatâd ar ei gyfer. Bydd rhaid i PCGC brofi ei bod wedi rhoi gwybodaeth ichi, a'ch bod wedi llwyr ddeall beth roddoch chi ganiatâd ar ei gyfer.

Os gofynnir am ganiatâd, gallwch roi eich cydsyniad mewn sawl ffordd. Gallwch ei roi yn ysgrifenedig, trwy dicio blwch ar wefan, trwy ddewis opsiynau ar ap ffôn symudol, neu drwy unrhyw weithred arall sy'n dangos eich bod wedi derbyn y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio.

15. Beth am atal y defnydd o wybodaeth?

Os gofynnir inni beidio â defnyddio data unigolyn, bydd PCGC yn storio'r wybodaeth ond ni fydd yn ei defnyddio mwyach. Mae gan PCGC Bolisi Cadw Data sy'n gorfodi pa mor hir y mae'n rhaid cadw cofnodion, gan gynnwys data personol. Mae cyfnodau cadw yn cael eu pennu gan ddeddfwriaeth a gofynion busnes. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd PCGC yn cadw'ch data am 3 blynedd ar ôl y cyswllt diwethaf, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol yn mynnu ein bod yn cadw'r data hyn am wahanol gyfnod o amser.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ar ein systemau. Bydd yr holl ddata personol yn cael eu cadw yn unol â'r

Byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau, gan gynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth, ar yr adeg y cymerir y penderfyniad.

16. Penderfyniadau a wneir yn awtomatig

Mae PCGC hefyd yn cymryd camau i atal y risgiau a all godi o gymryd penderfyniadau yn awtomatig:

Bydd hyn yn berthnasol i chi pan:

- fydd yn broses awtomatig ac
- mae effaith gyfreithiol ar benderfyniad a wnaed gyda'ch gwybodaeth.

Mae'n bosibl y bydd Gwasanaethau Caffael yn awtomeiddio rhai penderfyniadau â'ch gwybodaeth, ond fel arfer bydd rhywfaint o fewnbwn gan berson wrth wneud hyn.

Enghraifft o broses awtomataidd fyddai ceisiadau a chymeradwyaethau prynu, lle cesglir yr wybodaeth gywir ac yna ei sianelu trwy'r gyfres angenrheidiol o gymeradwyaethau gan ddefnyddio llif gwaith awtomataidd.

Fodd bynnag, bydd PCGC yn cymryd camau i nodi faint o benderfyniadau a wneir yn awtomatig ac i ystyried a yw'r rhain yn dderbyniol.

Bydd PCGC yn sicrhau bod unrhyw broffilio awtomatig yn deg ac yn gyfreithlon. Bydd PCGC yn defnyddio gweithdrefnau priodol, gan gynnwys cywiro gwallau lle bo data yn anghywir.

17. Beth am yr hawl i gywiro neu i ddileu gwybodaeth anghywir?

Mae gennych yr hawl i ofyn i PCGC gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth. Mae'n rhaid i PCGC sicrhau ei bod yn dileu neu'n cywiro unrhyw wybodaeth y profwyd ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn. Ymatebir i bob cais am gywiriad o fewn 1 mis calendr, gan roi gwybod ichi ba gamau yr ydym wedi'u cymryd.

18. Cadw eich gwybodaeth

Ni fyddwn ond yn cadw gwybodaeth am gyhyd ag y bo angen.

Er enghraifft, cedwir gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractau am o leiaf 6 blynedd ar ôl cyflawni'r Contract dan sylw. Ar gyfer cytundebau a wneir fel gweithred mae hyn 12 mlynedd ar ôl cyflawni'r contract.

19. Gwneud cwyn

Os hoffech wneud cwyn ynghylch unrhyw broblemau sydd wedi codi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, cysylltwch â:

Tim Knifton
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
02920 902272
tim.knifton@wales.nhs.uk

Os ydych chi'n dal yn anfodlon yn dilyn eich cwyn, mae gennych yr hawl i wneud cwyn i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill,
17 Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ico.org.uk

20. Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r daflen hon, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am yr wybodaeth hon, cysylltwch â Gwasanaethau Caffael PCGC

E-bost: ProcurementServicesenquiries@wales.nhs.uk
Ffôn: 02920 903700

http://www.nwssp.wales.nhs.uk/procurement-services